**Teitl: Cymdeithas Aml-Gred Cymru**

<table>
<tr><td>Teitlau</td><td>Y Crynwyr</td><td>Byddin yr Iachawdwriaeth</td><td>Dyneiddiaeth yng Nghymru</td></tr>
<tr><td>Rhesymeg</td><td colspan="3">YMWADIAD: Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'<br>Drwy ddysgu am Gymdeithas Aml-Gred Cymru fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt</td></tr>
</table>

| Teitlau | Y Crynwyr | Byddin yr Iachawdwriaeth | Dyneiddiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | **Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |

| Teitlau | Y Crynwyr | Byddin yr Iachawdwriaeth | Dyneiddiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| **Geirfa allweddol** | Crynwyr – grŵp o bobl sy'n cyfarfod ac yn addoli'n syml gan fod yn agored i Ysbryd Duw a Christ.<br><br>Cymdeithas y Cyfeillion – teitl mwy ffurfiol am y Crynwyr.<br><br>Degwm – arferiad y gorffennol o dalu swm penodol o bres i Eglwys Lloegr.<br><br>Tyngu Llw – gwneud addewid arbennig a hynny fel arfer gan alw ar Dduw fel tyst.<br><br>Goleuni Mewnol – term a ddefnyddir gan Grynwyr ac eraill am ddod i ddealltwriaeth crefyddol.<br><br>Tawelwch Mewnol – term a ddefnyddir gan grynwyr ac eraill am dderbyn boddhad crefyddol.<br><br>Cyfarfod Addoli – term y Crynwyr am eu 'gwasanaethau'. | Slymiau - ardal dlawd mewn tref neu ddinas lle mae'r tai yn fudr ac o ansawdd gwael. *Slums.*<br><br>Lloches - lle diogel i rywun sydd mewn perygl. *Shelter/Safe house.*<br><br>Amodau gwaith - amgylchiadau gwaith pobl. Work conditions.<br><br>Puteiniaid - pobl sy'n cael rhyw gyda phobl eraill er mwyn cael arian. *Prostitutes.*<br><br>*Down and outs* - pobl heb arian, gwaith, lle i fyw.<br><br>Bregus - agored i gael niwed neu i ddioddef. *Vulnerable.*<br><br>Pobl lled-filwrol - rhywbeth sy'n debyg i drefn y fyddin *quasi-military*.<br><br>Eglwys efengylaidd – defnyddio diffiniad y ddefnyddiwyd yn flaenorol?<br><br>Prif-ffrwd - yn cael eu cydnabod yn gyffredinol. *Main stream.*<br><br>Trugareddfa - yn yr Hen Destament (Exodus 25) mae sôn am Arch y Cyfamod, bocs hardd, euraidd oedd yn dal llechi'r Deg Gorchymyn. Roedd y caead yn cael ei alw'n drugareddfa. M*ercy-seat.*<br><br>Proffes - dweud yn gyhoeddus eich bod yn credu rhywbeth. *To profess.*<br><br>Dibyniaeth - bod yn ddibynol ar rywbeth e.e. cyffuriau neu gamblo. *Addiction.* | Dyneiddiaeth - y gred nad oes angen Duw neu grefydd i gyflenwi anghenion ysbrydol ac emosiynol pobl.<br>Dyneiddwyr – y rhai sy'n dilyn y gred uchod.<br><br>Cwricwlwm – yr hyn sy'n cael ei ddysgu mewn ysgol neu goleg.<br><br>Gwyddoniadur – Llyfr cynhwysfawr o wybodaeth. *Encyclopaedia.*<br><br>Rhyddid -<br><br>Cyfiawnder<br><br>Goddefgarwch<br><br>Rhesymeg<br><br>Cymdeithas Dyneiddwyr y Deyrnas Gyfunol - Cymdeithas sy'n ceisio tynnu grwpiau dyneiddiol y Deyrnas Gyfunol at ei gilydd.<br><br>Goruwchnaturiol – rhywbeth sydd y tu hwnt i ddeddfau natur.<br><br>Moesegol – egwyddorion ymddygiad.<br><br>Tosturi – y gallu i roi eich hun yn esgidiau rhywun arall.<br><br>Gweddus – addas a pharchus<br><br>Seremoni enwi – enwi plentyn – tebyg i fedydd.<br><br>Bedydd – defod enwi plentyn yn y grefydd Gristnogol. |

| Teitlau | Y Crynwyr | Byddin yr Iachawdwriaeth | Dyneiddiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | | Llan Llanast - cyfarfod i blant neu bobl ifanc lle mae straeon Beiblaidd yn cael eu dysgu wrth i deuluoedd ddod at ei gilydd i wneud crefft. *Messy Church.*<br><br>Arwyddair - brawddeg byr sy'n dangos beth mae person/mudiad/ysgol yn ei gredu neu'n anelu ato. *Motto.* | *Godparents* - rhieni bedydd mewn bedydd Cristnogol - fel arfer perthnasau neu ffrindiau i'r teulu sy'n addo cynorthwyo'r rhieni ym magwraeth y plentyn.<br><br>*Guideparents* - fel yr uchod mewn seremoni enwi ddyneiddiol. |
| **Geiriau chwilio** | Crynwyr<br><br>Cymdeithas y Cyfeillion<br><br>Degwm<br><br>Tyngu Llw<br><br>Goleuni Mewnol<br><br>Tawelwch Mewnol | Byddin yr Iachawdwriaeth<br><br>William a Catherine Booth<br><br>*The Christian Mission*<br><br>*Match-girls*<br><br>Caerfyrddin<br><br>Capten Neil Duquemin<br><br>WarCry<br><br>*Blood and Fire*<br><br>*Faith into Action*<br><br>*Lifehouses* | Dyneiddiaeth<br><br>Dyneiddwyr<br><br>Gwrth-grefyddol<br><br>Seremoni enwi<br><br>Angladd<br><br>Priodas<br><br>Cymru<br><br>Moesegol<br><br>Bydysawd<br><br>Egwyddorion<br><br>Cristnogaeth |
| **Tasgau** | Tasgau estynedig sy'n gofyn i'r disgyblion i ddefnyddio'r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau | | |

| Teitlau | Y Crynwyr | Byddin yr Iachawdwriaeth | Dyneiddiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| **dosbarth** | sylfaenol/crefyddol.<br><br>Yn yr erthygl am y Crynwyr, mae Catherine James yn dweud, *"Dydy bod yn Grynwr ddim yn ddogma, mae'n ffordd o fyw. Gweledigaeth George Fox oedd fod na ddaioni ym mhob un ohonom ni, rhywfaint o Dduw ym mhob person rydym yn cyfarfod."*<br>• Sut byddai Dyneiddiwr yn ymateb i'r datganiad hwn?<br>• Sut byddai aelod o Fyddin yr Iachawdwriaeth yn ymateb i'r datganiad hwn?<br>• Beth yw'ch ymateb chi i ddatganiad Catherine James? | | |
| Tasgau ymestynnol | 1. Pam y gwnaeth deuluoedd o Grynwyr fel **Cadbury, Rowntree a Fry** ganolbwyntio ar y busnes siocled? Sut wnaeth eu gofal am eu gweithwyr gael ei adlewyrchu mewn lleoedd fel pentref **Bournville**? (Lle mae **Cadbury World** erbyn hyn!)<br><br>2. Roedd **Elizabeth Fry** yn Grynwraig ac aelod o deulu Fry. Daeth yn enwog am ei gwaith o geisio diwygio'r carchardai. Ymchwiliwch i'w hanes gan ei gyflwyno ar ffurf o'ch dewis chi.<br><br>**3.** Cafodd Crynwyr ardal Dolgellau amser caled. Casglwch wybodaeth am y sefyllfa sy'n cael ei adlewyrchu yn nofelau Marion Eames – *Y Stafell Ddirgel* a *Rhandir Mwyn*.<br><br>**4.** Beth fyddai arbenigwr 'Antiques Roadshow' yn dweud wrth y gwylwyr am ddodrefn Arbrawf Bryn-mawr. Cofiwch ddefnyddio geiriau megis: *Crynwyr, dirwasgiad, cydweithredol. Yn 2015, gwerthwyd wardrôb Brynmawr mewn ocsiwn yng Nghaerdydd yn £800. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng pris a* | 1. Naill ai, lluniwch boster sy'n annog pobl ifanc i ddod yn rhan o waith Byddin yr Iachawdwriaeth, neu lluniwch boster sy'n cyfeirio pobl fregus at y cymorth gall Byddin yr Iachawdwriaeth gynnig iddynt. Ceisiwch ddangos y math o waith sy'n cael ei wneud.<br><br>2. Gwnewch ychydig o waith ymchwil er mwyn dod o hyd i elusen arall sydd wedi dod i fodolaeth oherwydd y ffydd Gristnogol e.e. Cymorth Cristnogol, Samaritan's Purse, Open Doors, Mercy Ships etc. Ysgrifennwch erthygl fer am eu Gwaith yng Nghymru a thu hwnt.<br><br>3. Pwy oedd y match-stick girls? Gwnewch ychydig o ymchwil ac ysgrifennwch baragraff amdanynt.<br><br>*4. I will tell you the secret: God has had all that there was of me. There have been men with greater brains than I, even with greater opportunities, but from the day I got the poor of London on my heart and caught a vision of what Jesus Christ could* | 1. Ymchwiliwch ymhellach i gredoau Dyneiddiol.<br><br>2. Rhestrwch y prif wahaniaethau rhwng Dyneiddiaeth a chrefydd.<br><br>3. Pam yn eich tyb chi mae Dyneiddiaeth yn apelio at gymaint o bobl.<br><br>4. Chwaraewch rôl seremoni enwi Ddyneiddiol.<br><br>5. Cynhaliwch drafodaeth ddosbarth... *'A ddylai Dyneiddiaeth gael yr un hawliau a chrefydd?'* |

| Teitlau | Y Crynwyr | Byddin yr Iachawdwriaeth | Dyneiddiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | *'gwerth'?*<br><br>5. Mae addoliad y Crynwyr yn anffurfiol iawn. Nid oes rhaid dilyn patrwm arbennig. Rhestrwch fanteision ac anfanteision addoliad o'r fath.<br><br>**6.** Mae Crynwyr yn aml yn bobl bodlon, tawel, sy'n anelu at fyw bywyd mwy syml na'r rhan fwyaf ohonom. Gwyliwch y fideo '*Y Ffordd Dawel'* eto. Beth yn eich barn chi yw manteision y ffordd yma o fyw?<br><br>**7.** *'Grŵp o bobl oedd yn cynnig cwestiynau ac nid cynnig atebion'*. Dyma sut mae un Crynwr yn disgrifio Cymdeithas y Cyfeillion. I ba raddau y byddai'n bosib dadlau fod hyn yn beth iach iawn yn yr oes yma?<br><br>**8.** Waldo Williams **–** er mai Dail Pren oedd ei unig gyfrol mae rhai yn ei weld fel bardd gorau Cymru! Chwiliwch am dipyn o'i hanes gan gofio sôn am ei gysylltiad agos gyda'r Crynwyr. | *do with me and them, on that day I made up my mind that God should have all of William Booth there was. And if there is anything of power in the Salvation Army, it is because God has had all the adoration of my heart, all the power of my will, and all the influence of my life.*<br>**<u>William Booth</u>**<br><br>Mae'r dyfyniad uchod yn dweud bod William Booth, yn fwy na dim, eisiau helpu tlodion Llundain ac roedd yn barod i wneud unrhyw beth i gyrraedd y nod hwnnw.<br>Oes rhywbeth y buasech chi'n hoffi ei wneud, yn fwy na dim, yn ystod eich bywyd chi?<br>Ysgrifennwch baragraff yn egluro beth fuasech chi'n hoffi ei wneud. Pa mor angerddol (*passionate*) ydych chi am hyn?<br><br>5. *A barracks is meant to be a place where real soldiers were to be fed and equipped for war, not a place to settle down in or as a comfortable snuggery in which to enjoy ourselves. I hope that if ever they, our soldiers,* (sef aelodau Byddin yr Iachadwriaeth) *do settle down God will burn their barracks over their heads!*<br>**Catherine Booth** | |

| Teitlau | Y Crynwyr | Byddin yr Iachawdwriaeth | Dyneiddiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | | Ydy capeli/eglwysi Cymru heddiw yn debyg i faracs lle mae pobl yn paratoi i weithredu, neu ydyn nhw'n rhy gyfforddus?<br>Trafodwch sylw Catherine Booth yn y dosbarth. I ba raddau mae canolfan Fyddin yr Iachawdwriaeth yng Nghaerfyrddin yn 'faracs' tebyg i'r un a ddychmygodd Catherine Booth?<br><br>6. 'Soup, soap and salvation' oedd slogan y Booths yn Llundain. Lluniwch slogan Cymraeg ar gyfer canolfan Fyddin yr Iachawdwriaeth yng Nghaerfyrddin.<br><br>7. Chwiliwch y We am adnodau o'r Beibl sy'n ein hannog i helpu pobl fel mae Byddin yr Iachawdwriaeth yn ei wneud. Dewiswch yr adnodau sy'n apelio fwyaf atoch chi. Gallwch fewnbynnu B*ible verses about caring for others* i'ch peiriant chwilio. | |
| **Adnoddau pellach** | https://crynwyrcymru.org.uk<br><br>https://quakersinwales.org.uk/resources/y-ffordd-dawel/<br><br>https://www.casgliadywerin.cymru/collections/511034<br><br>https://amgueddfa.cymru/erthyglau/2007-04-23/Dodrefn-Bryn-mawr-1929-40/ | https://www.salvationarmy.org.uk/carmarthen | https://humanism.org.uk/wales/ |

| Teitlau | Y Crynwyr | Byddin yr Iachawdwriaeth | Dyneiddiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | | | |